SUL CYFFREDIN 15

ESEIA 5:1-7; SALM 80:1-2, 8-19;
HEBREAID 11:29–12:2; LUC 12:49-56

● **Gweddi agoriadol**

Dyma dy blant wedi dod ynghyd,
wedi derbyn maddeuant a chroeso,
i gyfarfod yn y lle arbennig hwn.
Down ynghyd yn frawd a chwaer,
teulu ynghyd,
yn cwrdd yn nhŷ ein Tad.
Down ynghyd yn gorff i ti,
a bendithio ein gilydd
yn gymuned Crist.

● **Moliant**

Am fawrhydi'r cread,
y nefoedd uwchben
a'r moroedd oddi tanodd,
derbyn ein hoffrwm moliant.

Am harddwch dy gariad,
y doethineb, y llawenydd
a'r amynedd a gaed,
derbyn ein hoffrwm moliant.

Am y tristwch a achoswn i ti,
a'th barodrwydd
i faddau i ni,
derbyn ein hoffrwm moliant.

Am gael gwybod am iachawdwriaeth,
am aberth Iesu
yn dod â bywyd i ni,
derbyn ein hoffrwm moliant.

● **Cyffes**
Rhoddaist i ni
fyd o harddwch,
a ninnau'n ei ddifetha.
Byd i'n bwydo,
a chynifer yn llwgu.
Byd o gyfoeth,
a ni yn amharod i rannu.
Byd i ofalu amdano,
a ni yn meddwl amdanom ein hunain.

Maddau i ni, Arglwydd grasol,
bob tro yr anafir dy galon
gan ein hunanoldeb;
bob tro na feddyliwn am eraill,
gofal am neb ond ni.
Caniatâ i ni weld y byd
yn rhodd gennyt ti
y gellir ei rhannu,
a'r rheini sy'n byw yma
yn gymdogion i ni.
Gofynnwn, er mwyn i'th enw
gael ei ogoneddu
yn harddwch a llawnder y byd
a gwasanaeth ein bywydau.

● Diolch

Ffydd yw'r rhodd
y gwelwn drwyddi
y byd hwn drwy dy lygaid di,
a'r harddwch sydd ynddo.

Ffydd yw'r rhodd
y gwelwn drwyddi
dy ddelw di ym mhob person,
a'th fendith, pan dderbyniwn hi.

Ffydd yw'r rhodd
y gwelwn drwyddi
y gobaith yn dy addewid
a'r nerth i'w fyw.

Ffydd yw'r rhodd
sy'n gyson byth,
ac fe'i derbyniwn
gyda diolch cywir.